

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Minwear/Coed Canaston

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 5.1 milltir (8.2 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth ym Mhont Canaston ar ôl cerdded 1 km trwy'r coetir 322/381/385

CHARACTER: Coetir, gweddol wastad

CHWILIWCH AM: Melin Blackpool • coetir • golygfeydd o'r afon

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD


● ● ● ● Llwyr Cylch

— — — — — Llwylau Cyhoeddus

P Parcio

Safle Bws

Safle Picnic



Minwear/Coed Canaston

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Pellter: 5.1 milltir (8.2 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth ym Mhont Canaston wedi
cerdded 1 km trwy'r coetir
322/381/385.

Cyfeirnod map: SN060143

Mae dyffryn Dwyrain y Cleddau wedi
bod yn goediog ers sawl canrif. Ar un
adeg, roedd yr ardal sydd i'r de o
Bont Canaston heddiw tu mewn i ffin
Goedwig ganoloesol Arberth.

Mae Coed Minwear a Canaston yn
goetiroedd hynafol, er, yn y ganrif
ddiwethaf, mae conifferau sy'n tyfu'n
gyflym wedi cymryd lle rhai o'r deri.
Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn
maen nhw wedi bod yn goed
gweithiol; roedden nhw'n torri pren a'i
droi'n olog ac yn bostion pwll, ac yn
casglu rhisgl derw - hyd nes oes
Fictoria fe fyddden nhw'n ei ddefnyddio
i drin lledr.

Roedd yna ffwrnais chwyth yng
Nghoed Canaston, hefyd, a

gynhyrchai haearn. Fe'i adeiladwyd
yn y 1630au gan y meistr haearn o
Loegr, George Mynne, ac roedd yn
defnyddio haearn a gloddiwyd yn lleol
a golosg o'r coedwigoedd cyfagos. Yn
ddiweddarach, sefydlwyd gefail
haearn yn Blackpool, Melin Blackpool
heddiw.

Adeiladwyd y felin yn 1813 ar safle'r
efail. Roedd yn weithredol hyd nes yr
Ail Ryfel Byd ond yna ni chawsai ei
defnyddio.

Yn y felin, mae'r Cleddau yn cyrraedd
ei derfyn llanwol, gan adael dylanwad
yr heli o'r diwedd. Mae yna adar glan
dŵr fel crëyr a glas-y-dorlan i'w
gweld ac mae yna doreth o
rywogaethau sy'n hapus yn y coed
hefyd, gan gynnwys y titw cynffon hir,
cnocell smotiog y coed a'r dringwr
bach.

Mae gan yr ardal lawer o gysylltiadau
â'r Oesoedd Canol. Yn agos at y
llwybr, mae olion a elwir yn Tŷ'r
Chwiorydd sy'n dyddio o'r cyfnod
canoloesol. Mae'n bosib ei fod yn

arfer bod yn hostel i bererinion
benywaidd.

Drws nesaf i Fferm Minwear mae
Eglwys Sant Womar o'r 12fed ganrif,
a fu unwaith dan reolaeth Marchogion
Sant Ioan.

